

No.

PWYLLGOR YMDDEOL YN GYNNAR / DILEU SWYDDI

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 7 Chwefror, 2022.

Mae-r Agenda ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd G. John (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr P. Drake, K.F. McCaffer and R.A. Penrose

COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr, 2022 fel cofnod cywir.

DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail eu bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl pob tebyg fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

CAIS AM YMDDEOLIAD HYBLYG (CGC) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

Rhodddwyd ystyriaeth i gais am ymddeoliad hyblyg mewn perthynas â'r cyflogai uchod. O ystyried yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod, penderfynwyd

PENDERFYNWYD -

- (1) CYTUNO i ymddeoliad hyblyg J, yn unol â pholisi'r Cyngor, yn amodol ar ddim amgylchiadau eraill yn codi yn y cyfamser lle byddai'r gyflogaeth yn cael ei therfynu am reswm gwahanol.
- (2) CYTUNO bod ymddeoliad J o gyflogaeth gyda'r Cyngor yn digwydd ar neu cyn 31 Mawrth 2023 yn amodol ar ddim amgylchiadau eraill yn codi yn y cyfamser lle byddai'r gyflogaeth yn cael ei therfynu am reswm gwahanol.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Penderfynu ar y cais am ymddeoliad hyblyg o fewn y rheoliadau a chaniatáu ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.
- (2) Er mwyn cyflawni'r newid angenrheidiol i ddyddiad ymddeol hyblyg y cyflogai, i gynorthwyo â pharhad y gwasanaeth, rhoi cymorth priodol i helpu'r cyflogai i bontio i ymddeoliad ac i gyfrannu at waith Rondel House wrth i ni adfer o effeithiau a goblygiadau pandemig y Coronafeirws a'r gwasanaeth bontio i reolwr newydd.

PENDERFYNU DISWYDDIAD C (PAC) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

Rhodddwyd ystyriaeth i'r cais am ddileu swydd mewn perthynas â'r cyflogai uchod. O ystyried yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod, penderfynwyd

PENDERFYNWYD -

- (1) CYMERADWYO taliad dileu swydd ar neu cyn 31 Mawrth 2022 ar sail Cynllun E o Gynllun Ymddeol yn Gynnar / Diswyddo'r Cyngor yn amodol ar Benderfyniad (2) ac C yn cydymffurfio â'r weithdrefn osgoi dileu swyddi.
- (2) pe canfyddir cyflogaeth amgen ar gyfer C, bydd yr hysbysiad yn cael ei ymestyn ar gyfer unrhyw gyfnod prawf a bydd Penderfyniad (1) yn cael ei ddirymu (ynghyd ag unrhyw daliad dileu swydd) os bydd y cyfnod prawf yn llwyddiannus.
- (3) yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Pwyllgor Ymddeol yn Gynnar / Diswyddo o'r Penderfyniadau (1) a (2) uchod, rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Rheolwr Gweithredol dros Adfywio gytuno neu beidio â chytuno ar Daliad yn Lle Rhybudd yn ôl yr angen.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Penderfynu ar y cynnig dileu swydd o fewn y rheoliadau a chaniatáu ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.
- (2) Cadw cydymffurfiaeth â pholisïau Adnoddau Dynol y Cyngor megis Osgoi Dileu Swyddi ac Adleoli fel y bo'n briodol.
- (3) Galluogi Talid yn Lle Rhybudd yn ôl yr angen.